Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Treferthyr
# Lôn Bach
# Criccieth
# Gwynedd
# LL52 0DS

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Treferthyr wedi'i lleoli yn nhref glan y môr Cricieth ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos. Daw'r disgyblion o gefndir sy'n gyffredinol heb fod o dan fantais economaidd. Tua 7% o'r disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau bwyd am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Adeg yr arolygiad roedd 131 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 147 adeg yr arolygiad diwethaf. Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 26 arall ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith ond amcangyfrifir bod tua 94% yn siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl. Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno cyn i'r disgyblion gyrraedd cyfnod allweddol 2 gyda'r nod o gael pob un yn ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2004. Ers hynny, mae newid sylweddol wedi bod yn y staff gan gynnwys y pennaeth a benodwyd i'w swydd ym mis Ebrill 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Treferthyr yw £2,926 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 97ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu tasgau ac yn cydweithio'n hapus gyda'u cyfoedion; a
- bod yr ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd ar gyfer ei disgyblion.

Fodd bynnag:

- bod y tueddiadau yn asesiadau diwedd cyfnodau allweddol dros gyfnod yn isel; a
- bod anghysondeb yn y safonau a gyflawnir ar draws yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y corff llywodraethol a'r pennaeth weledigaeth glir ar gyfer cynnig yr addysg orau i'r disgyblion; a
- bod gan y staff presennol frwdfrydedd a dyfalbarhad wrth geisio mynd i'r afael â chodi safonau.

Fodd bynnag:

- bod y staffio wedi bod yn ansefydlog iawn dros gyfnod, a bod hyn yn dal i barhau; ac
- nad yw'r blaengareddau a gyflwynwyd yn ddiweddar eto wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol;

A2 rannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol;

A3 ddarparu tasgau mwy heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog;

A4 barhau i ddatblygu cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2; a

A5 rhoi mwy o bwyslais ar lais disgyblion ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Cymedrol yw lefelau cyfartalog y plant wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Er hynny, mae'r mwyafrif ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau sydd ar y cyfan, yn briodol i'w hoed a'u gallu. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu tasgau ac yn cydweithio'n hapus gyda'u cyfoedion. Er bod y data'n dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad y bechgyn o'u cymharu â'r merched ar draws y ddau gyfnod allweddol, gyda'r bechgyn yn perfformio orau, nid yw hyn yn amlwg yn eu gwaith nac yn eu perfformiad yn y gwersi yn ystod yr arolygiad.

At ei gilydd mae medrau Cymraeg disgyblion yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall ac yn ymateb yn gywir i amrywiaeth dda o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r mwyafrif yn siarad yn gywir, ond heb fod yn estynedig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn tueddu i droi i siarad Saesneg mewn gwaith grŵp yng nghyfnod allweddol 2. Ar y cyfan mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn darllen yn hyderus, ond mae lleiafrif yn darllen heb fynegiant priodol. Nid yw cynnydd medrau ysgrifennu disgyblion gystal, gan nad ydynt yn ysgrifennu'n estynedig. Mae'r disgyblion yn elwa o'r profiadau a gyflwynir am yr amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal. Mae medrau Saesneg mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Mae'r mwyafrif yn siarad yn hyderus ac yn darllen ystod o ddeunyddiau yn ystyrlon. Nid yw'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o gyfryngau ar draws y cwricwlwm. Er hynny, mae gan pob un o'r disgyblion fynediad teilwng i'r cwricwlwm ehangach fel y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae safonau'r disgyblion yn y dosbarthiadau yn ogystal â'r dystiolaeth yn eu llyfrau gwaith yn debyg i'r safonau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y data.

Er 2006, mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 wedi bod yn anwastad yn y dangosydd pynciau craidd (DPC – y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) a hefyd ym mhob un o'r pynciau craidd ar wahân i wyddoniaeth lle mae wedi bod yn gyson. Mae DPC yr ysgol yn gyffredinol debyg neu'n well na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, ond yn is na'r awdurdod lleol a Chymru. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae'r ysgol ymlith y 25% isaf o ysgolion ar gyfer y DPC. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yn y Gymraeg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, tra ym mathemateg a gwyddoniaeth mae'n tueddu i fod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac yn debyg neu ychydig yn is na'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r ganran o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac eithrio yn 2008 pan y'i cyflawnwyd

gan bob disgybl. Mae perfformiad yr ysgol yn 2010 yn gosod yr ysgol yr isaf o'r chwech yn y teulu ond yn uwch na chyfartaledd ysgolion yr awdurdod lleol a Chymru. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae'r ysgol wedi bod yn gyson ymlith y 50% neu'r 25% isaf o ysgolion ar gyfer y DPC dros pedair blynedd heblaw am 2008. Yn 2010, mae'r ysgol ar y ffin canol ar gyfer Saesneg, ymlith y 50% isaf o ysgolion ar gyfer y Gymraeg ac ymlith y 25% isaf o ysgolion ar gyfer mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC. Yn 2010, mae canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel disgwyliedig (lefel 5) yn y Saesneg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru tra yn y Gymraeg mae'r canran ychydig yn is. Ym mathemateg mae'r canran hwnnw'n uwch na'r teulu a Chymru ond ychydig yn is na'r awdurdod lleol. Mae'n debyg i'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru mewn gwyddoniaeth. Mae targedau'r ysgol yn rhagweld gwelliant y flwyddyn nesaf.

**Lles: Digonol**

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda, gyda'r mwyafrif yn gwrtais ac yn dangos gofal tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Ar y cyfan mae'r mwyafrif yn mwynhau dysgu ac i raddau yn dangos cymhelliant. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn meddu ar rai medrau sy'n eu helpu i wella eu dysgu eu hunain. Er hynny, nid yw'r elfen hon wedi ei datblygu'n ddigonol ar draws cyfnod allweddol 2. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi, gan gwblhau eu tasgau'n ddigonol. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol o sut i gadw'u hunain yn iach a diogel, ac at bwy i droi os oes problem ganddynt.

Cyfradd presenoldeb yr ysgol yw 94.5%, sy'n uwch na chyfradd yr awdurdod lleol a'r gyfradd genedlaethol. Serch hynny, digonol yw prydlondeb.

Ar y cyfan, mae'r cyngor ysgol yn fforwm priodol i'r disgyblion gynnig gwelliannau a gweithredu syniadau i godi arian, er enghraifft, prynu meinciau ac offer chwarae i'w defnyddio amser egwyl. Er hynny, nid yw'r holl aelodau yn llwyr ddeall eu cyfrifoldebau ar y Cyngor, nac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu syniadau i'r eithaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd ar gyfer ei disgyblion. Cynllunnir yn fanwl a bwriadus ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a rhoddir sylw dyladwy i ddiddordebau'r disgyblion. Er hynny, nid yw'r cynlluniau tymor hir ar gyfer cyfnod allweddol 2 eto wedi eu datblygu'n llawn.

Cynllunnir yn fwriadus ar gyfer datblygu'r medrau allweddol yn y cynlluniau tymor byr ond anghyson yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio amrywiaeth o strategaethau medrau meddwl.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ddigonol. Mae'r staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac maent yn rhugl yn y Gymraeg a'r

Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Serch hynny, yng nghyfnod allweddol 2 gwelir gorddibyniaeth ar daflenni gwaith ac ni chynigir digon o gyfleoedd i ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ym mywyd a gwaith yr ysgol. Rhoddir sylw da i astudio'r amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal mewn cyd-destun diwylliant Cymru, er enghraifft cyflwynir hwiangerddi a gwaith beirdd enwog yn y gwersi iaith a gwaith yr arlunwyr Mary Lloyd Jones ac Anne Murray yn y gwersi celf. Mae'r ysgol hefyd yn dathlu dyddiau gŵyl Cymreig, er enghraifft dydd Gŵyl Dewi.

Er mwyn ehangu gwybodaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill, mae'r ysgol wedi creu cysylltiad ag ysgol yn Nhransylvannia. Er bod gwaith wedi'i wneud ar gynaeafu llysiau mewn gardd gerllaw yr ysgol, annatblygedig yw gwaith yr ysgol ar gynaladwyedd, ac nid oes pwyllgor-eco mewn lle.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu a arsylwyd yn ystod yr arolygiad yn dda. Yn y gwersi gorau, cynllunnir yn effeithiol a manwl ar gyfer y gweithgareddau, a cheir cydberthynas hyfryd rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae'r drefniadaeth dosbarth yn drefnus a darperir ystod o gyfarpar ac adnoddau defnyddiol. Ceir arddangosfeydd lliwgar, deniadol a symbylus yn y dosbarthiadau, sy'n hybu'r dysgu. Yn y mwyafrif o'r gwersi, defnyddir amrediad amrywiol o ddulliau addysgu diddorol a phriodol sy'n ysgogi'r disgyblion i weithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau a grwpiau. Ar y cyfan mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Anghyson yw'r arfer o wahaniaethu'n briodol i ymateb i ofynion disgyblion o wahanol alluoedd ac nid yw'r gwaith a osodir bob amser yn ddigon heriol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu i'w llawn potensial er enghraifft wrth ysgrifennu'n estynedig.

Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi'r ysgol yn datblygu'n dda gyda strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau gwreiddio yn y lleiafrif o'r dosbarthiadau. Gosodir targedau ar gyfer canlyniadau diwedd blwyddyn a chaiff rhain bellach eu gwirio'n rheolaidd. Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol, er mai disgrifiadol ac nid arfarnol yw nifer o'r sylwadau a gynigir. Anghyson yw'r cyfleoedd a ddarperir i'r disgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle y mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Caiff pob disgybl ei drin yn deg a chânt gyfleoedd cyfartal i ddatblygu'n gymdeithasol, emosiynol a phersonol. Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae rhain yn wybyddus i'r holl staff a gŵyr y disgyblion at bwy i droi mewn cyfyngder.

Hyrwyddir iechyd a lles y disgyblion yn dda, sy'n cynnwys bwyta'n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd. Darperir yn briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd lle rhoddir cyfleoedd bwriadus iddynt fyfyrio ar eu credoau a'u bywydau eu hunain a chredoau a bywydau eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol ei holl disgyblion yn ddyddiol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhob gweithgarwch. Mae hefyd yn pwysleisio egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau allanol gan alw ar arweiniad megis gwasanaeth lles addysg, meddygol a chymdeithasol pan fo'r gofyn. Mae sesiynau Amser Cylch yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion fynegi a rhannu teimladau a materion o bwys iddynt. Cânt gyfle i nodi unrhyw bryderon yn gyfrinachol yn y blychau 'Dw i eisiau dweud...' sydd wedi eu lleoli mewn mannau amlwg yn yr ysgol.

Mae darpariaeth gyffredinol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn dda. Caiff y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu hadnabod yn fuan, a darperir Cynllun Addysg Unigol ar eu cyfer, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer ei disgyblion. Mae Cynllun Hygyrchedd yn ei le, ac, er nad yw'r adeilad yn un hygyrch ar gyfer anableddau corfforol, mae'n dangos y gallu i addasu ei threfniadau yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos cydymdeimlad â rhai llai ffodus trwy gasglu arian ac adnoddau at achosion elusennol er enghraifft Apêl Haiti ac 'Operation Christmas Child'. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu rhai cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth o gefndiroedd lleiafrifol, er nad yw'r elfen hon hyd yn hyn wedi datblygu'n llwyr.

Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd priodol er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm. Er bod rhannau o'r adeilad mewn cyflwr cyffredinol gwael gyda mannau oddi mewn iddo'n ddi-raen a diaddurn, llwydda'r ysgol i greu awyrgylch ddengar, liwgar ac atyniadol sy'n hyrwyddo'r dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r adeilad, fel bo gwagleoedd yn cael eu defnyddio i bwrpasau megis addysgu grwpiau ffocws. Oherwydd ei natur anwastad, mae cyfyngder ar y gweithgareddau y gellir eu cyflawni ar y buarth a chae chwarae'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn ddiweddar bu'r ysgol trwy gyfnod o ansefydlogrwydd mawr oherwydd nifer fawr o absenoldebau staff. Er hynny, mae'r pennaeth wedi symud yr ysgol yn ei blaen ers ei phenodiad ddeunaw mis yn ôl. Mae'r pennaeth, y dirprwy sydd ar secondiad a'r athrawon sydd newydd eu penodi yn cydweithio'n dda. Mae'r rheolwyr yn cyfleu eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn llwyddiannus ac erbyn hyn mae systemau rheolaethol newydd yr ysgol wedi'u sefydlu ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau a welir yn y dosbarthiadau. Mae gan yr athrawon a staff ategol rolau clir sy'n cael eu cyflawni yn dda ar y cyfan. Gwelir ymdeimlad cryf o waith tîm ar draws yr ysgol ac mae'r athrawon, y cymorthyddion a'r ysgrifenyddes yn cydweithio'n effeithiol.

Mae'r rheolwyr yn gosod ffocws priodol ar godi safonau a gwella ansawdd addysgu yn y broses hunan arfarnu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ansoddol a thargedir blaenoriaethau pwrpasol yng nghynllun datblygu'r ysgol. Gwelir gwelliant yn safonau darllen a thechnoleg gwybodaeth disgyblion yn sgil gweithredu cynllun datblygu'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn deall eu rôl yn dda. Mae gan y llywodraethwyr ran weithredol yn y broses o lunio amcanion a pholisïau. Maent yn cefnogi ac yn herio gwaith yr ysgol er mwyn codi safonau, er enghraifft trafod data'r ysgol. Maent hefyd yn rhannu'r cyfrifoldeb dros bennu blaenoriaethau ar sail cyllid, perfformiad a chanfyddiadau monitro ac arfarnu.

Ar y cyfan llwydda'r ysgol i roi sylw dyledus i rai blaenoriaethau cenedlaethol a lleol er enghraifft Ysgolion Iach a Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Gweithredir y cyfnod sylfaen yn gadarn ac yn dda. Er hyn, oherwydd sefyllfa staffio yng nghyfnod allweddol 2 nid yw rhai blaengareddau cenedlaethol eraill wedi'u sefydlu'n gadarn, er enghraifft datblygu Ysgol Eco. Nid yw holl egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, hyd yn hyn yn weithredol yng ngwaith yr ysgol.

Erbyn hyn mae gan yr ysgol drefn systematig a rheolaidd o arfarnu safonau a darpariaeth ar draws y dosbarthiadau. Mae'r drefn hon yn cynnwys monitro'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau dosbarth, dadansoddi a lefelu gwaith plant. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i'r cynlluniau hyn gael effaith gadarnhaol ar y safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefn reolaidd o arfarnu safonau a darpariaeth ar draws y dosbarthiadau. Mae'r drefn yn cynnwys monitro'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau dosbarth uniongyrchol. Mae'r ysgol yn cynnwys athrawon a llywodraethwyr yn y broses hunan arfarnu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ar adegau yn hytrach na bod yn arfarnol.

Cynhyrchir y Cynllun Datblygu Ysgol, sydd o ansawdd briodol yn flynyddol. Llunnir hwn ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu, er nad yw'r broses yn rhoi digon o sylw i safbwyntiau'r disgyblion. Erbyn hyn cyflwynir nifer o flaengareddau a gwelliannau pwysig ond nid ydynt wedi'u gwreiddio'n llwyr i fywyd yr ysgol.

Newydd ddechrau ar y broses o gynnal rhwydweithiau proffesiynol athrawon mae'r ysgol. Mae athrawon y dalgylch yn cydweithio i drefnu hyfforddiant e.e. medrau meddwl a'r Cyfnod Sylfaen. Mae pedwar o aelodau staff addysgu'r ysgol hefyd wedi ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer orau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys ysgolion y clwstwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, y gymuned a'r awdurdod lleol. Mae'r pennaeth a nifer o'r athrawon parhaol yn mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant a drefnir gan ysgolion y clwstwr, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r (APADGOS).

Mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio ag athrawon yr ysgol uwchradd leol ar y dasg o gymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi dechrau arwain at welliannau yn yr asesu. Mae gan yr ysgol drefniadau pontio clir er mwyn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

Ar y cyfan, mae rhieni'r ysgol yn gefnogol i'r gweithgareddau a ddarperir. Maent yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plant ac yn gyffredinol hapus gyda bron pob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cydweithio priodol yn bodoli rhwng yr ysgol, y llywodraethwyr a'r rhieni.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn rheoli ei adnoddau'n briodol a chaiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn addas. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu a gwneir defnydd effeithiol ohonynt i hyrwyddo'r dysgu.

Bu'r ysgol trwy gyfnod o ansefydlogrwydd mawr o ran staffio. Yn sgil hyn mae'r Llywodraethwyr wedi mabwysiadu strategaeth staffio glir gyda'r nod o sicrhau bod yr ysgol yn cael ei staffio'n briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Erbyn hyn mae gan yr ysgol dîm brwdfrydig o athrawon newydd ac athrawon llanw. Mae'r athrawon presennol yn cydweithio'n dda gyda'r cymorthyddion dosbarth, sydd yn eu tro, yn cyflawni eu rôl yn dda.

Mae'r adeilad yn hen a gwelir nifer o enghreifftiau o ddiffyg cynnal a chadw. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r diffygion hyn. Mae'r Corff Llywodraethol yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn gwario yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol ac yn sicrhau nad oes gormod o arian wrth gefn.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sydd, ar y cyfan yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae rheolaeth o'r amser hwn yn dda. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian o ystyried cynnydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr, ynghyd â'r defnydd darbodus o'r cyllid.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiaduron i rieni**

Dychwelwyd 17 o holiaduron y rhieni ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu’n fodlon iawn â’r ysgol yn gyffredinol. Dywed pob un bod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu’n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol a bod eu plant yn teimlo’n ddiogel yno.

Mae’r rhan fwyaf hefyd yn credu fod yr addysgu’n dda, bod staff yn disgwyl i’w plant weithion galed, ac yn eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu bod gwaith cartref yn briodol; eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant; bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu, i ysgwyddo cyfrifoldeb ac yn rhoi cymorth ychwanegol priodol iddynt mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Teimlant hefyd eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae’r mwyafrif yn teimlo bod eu plant wedi eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf. Teimla llawer yn esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod y disgyblion yn gyffredinol yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 58 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm ag eraill yn ystod yr arolygiad. Mae’r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio’n dda a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae llawer yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, a bod digon o adnoddau ar gael yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion o’r farn bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae’r rhan fwyaf hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Y lleiafrif sy’n teimlo nad yw pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio gydag ychydig yn teimlo fod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Alan Parry | Arolygydd Lleyg |
| Karena Owens | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |